

CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 24ain GORFFENNAF 2018.

1 PRESENNOL:

Cynghorwyr Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Mrs Carol McGregor, Ms Linda Jones, Mr Derek Hughes, Mr Mike Jones, Mr Einion Parry Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc).
Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts.

2 YMDDIHEURIAD:

Cynghorwyr Ms Rhian Roberts, Mr Raymond Evans, Mr Cynrig Jones, Mr Ian Owen, Mr John Pritchard.
Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones..

3 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.

3.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd..

3.2 Cydymdeimlwyd a Cynghorydd John Pritchard yn dilyn ei brofedigaeth.

3.3 Dymunwyd y gorau i Gynghorydd Mike Jones sydd am dderbyn llawdriniaeth yn Mis Medi.

3.2 Datgan Diddordeb Rhagfarnol.

3.2.1 Ni oedd neb yn datgan diddordeb.m yn cael ei thrafod.

4 ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIROL.

4.1 Cafwyd adroddiad newidiadau strwythurol Ysgolion yn Mon – dim newid yn Esceifiog.

4.2 Cafwyd adroddiad ynghylch a Ymgynghoriad Strategaeth Gwrthdlodi ar yr Ynys.

4.3 Cafwyd adroddiad fod y Cyngor Sir yn edrych ar werthu hen safle Neuadd y Sir yn Langefni.

Arwyddo.....

Tudalen 1.

5 DERBYN COFNODION MISOL Y CYNGOR (26ain Mehefin 2018).

5.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod Mis Mehefin 2018 yn gywir. (DH/EPW).

6 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

- 5.1 **Arwydd Cyflymder Radar** – adroddiad gan y Clerc ei fod wedi gwneud ymholiadau gyda swyddog o'r Adran Briffyrdd ac wedi cysylltu gyda Cwmni Coeval ac wedi derbyn pris gwerth £5,798 + TAW ar gyfer gosod 2 Arwydd naill ochr y pentref ar yr A55 ger Stad Maes Hyfryd a Phentre Berw. Roedd hefyd am weld a oes grantiau cymunedol gan y Cyngor Sir all elwa'r Cyngor Cymdeithas tuag at prynu UN ohonynt. Cytunwyd yr aelodau I symud ymlaen gyda'r argymelliad a'r cynllun cyn gynted a phosib.
- 5.2 Gweddillion carthffosiaeth perchennog 123 Gaerwen Uchaf wedi golchi o dan y ffens ac ar hyd gwyneb ofer y Cae Chwarae - **oherwydd pryder Iechyd a Diogelwch y Clerc i anfon llythyr i berchennog y tŷ yn gofyn am eglurhad a sicrhau nad oedd hyn am gario ymlaen.**
- 5.3 **Ail-Wynebu Offer Cae Chwarae Cae Mawr** – dywedodd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda GL Jones Playground o Fethesda ac wedi derbyn dyfnbris £22,975 am y gwaith yn ei gyfanrwydd ac oherwydd y costau fe argymellodd y dylai cwblhau'r gwaith dros 3 blynedd. Cytunwyd yr aelodau i'r argymelliad a cyn symud ymlaen - disgwyl am yr ail dyfnbris er mwyn cymharu.
- 5.4 **Gordyfiant Canghennau Cae Chwarae Cae Mawr** – Cyng Cynrig Jones i gysylltu gyda Mr Dafydd Hughes er mwyn trefnu dyfnbris erbyn y cyfarfod nesaf.
- 5.5 **Cloddiau Cae Chwarae Mawr** – cadarnhawyd fod y gwaith yma wedi ei cwblhau gan Mr O G Jones.
- 5.6 **Torri Coeden 144 Gaerwen Uchaf** – cadarnhawyd fod y gwaith yma bellach wedi ei wneud.
- 5.7 **Llythyr CPD IAU Y Gaerwen** – cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi anfon ymateb perthnasol yn nol i'r Clwb Iau yn amlinellu penderfyniad y Cyngor Cymdeithas.
- 5.8 **Safle y Gofeb & Gardd y Mileniwm** – cadarnhaodd y Clerc fod y gwaith o ddacluso'r safle wedi ei wneud. Er fod Mr B Sinnott wedi cytuno i wneud y gwaith, roedd wedi penodi Mr Adrian McIntosh sydd yn byw ym Mhangor i ymgymeryd y gwaith ar ei rhan ac oherwydd diffyg dealltwriaeth ynghylch a talu am y gwaith, roedd hyn wedi achosi tipyn bach o ddiflastod rhwng y Clerc a bygythiad oddiwrth partner Mr McIntosh. Roedd y Clerc eisoes wedi dwyn sylw y mater i'r Cadeirydd ac fe benderfynwyd talu Mr McIntosh yn uniongyrchol ar yr achlysur yma yn unig ac argymell peidio gwneud hyn yn y dyfodol, hynny yw, fe ddylai fod wedi talu Mr Sinnott yn unol a'r gytundeb ac yntau i dalu Mr McIntosh. **Cytunwyd yr aelodau gyda'r argymelliad yma.**

Arwyddo.....

Tudalen 2.

6 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAID RISG.

- 6.1 Cysoni Adroddiad & Cyfrif y Cyngor hyd at 30/6/2018** - cafwyd esboniad llawn o holl wariant a derbyniadau y Cyngor am Mis Mehefin 2018 gan cynnwys cysoniad a datganiad y banc ac fe dderbyniwyd ac arwyddwyd y fantolen yn unfrydol.
- 6.2 Adroddiad Taliadau & Derbyniadau Mis Gorffennaf 2018.**
Fe aeth y Clerc drwy rhestr byr o daliadau a derbyniadau y Cyngor am Mis Gorffennaf 2018 ac fe gytunwyd i wneud y taliadau yn unfrydol.

7. CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

- 7.1** Cais Llawn Dymchwel UN Annedd, Codi Annedd Annibynnol yn ei lle ynghyd a Addasu & Ehangu'r Annedd a Gadwyd yn:

Lleoliad: Bryn Sunsur & Rhif 1 Bryn Sunsur, Lon y Graig, Gaerwen (33C321).

PENDERFYNIAD: Dim Sylwadau.

- 7.2** Cais Llawn ar Gyfer Newid Defnydd Ddosbarth B7 (Storio & Halltu Crwyn Anifeiliaid) i Ddosbarth B8 (Storio & Dosbarthu) ynghyd a gosod cownter masnachu/gwerthu a gwneud gwaith Addasu Mewnol yn:

Lleoliad: 1-4 Unedau Diwydiannol Bryn Sunsur, Lon y Graig, Gaerwen (33C38F).

PENDERFYNIAD: Dim Sylwadau.

8 MATERION CYNLLUNIO.

- 8.1** Rhannwyd gwybodaeth fod Cwmni Hogan yn bwriadau defnyddio Chwarel Bwlch Gwyn at ddibenion wynebu ffyrdd yr Ynys rhwng 23ain Gorffennaf a 10fed Awst 2018 ac fod cymal o fewn amod 13 caniatad cynllunio 33C190Q/VAR yn caniatáu hyn ddigwydd cyn belled a bod y trefniant yn cael eu cytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Mwynau. Roedd yr Adran Cynllunio wedi anfon ebost atom ar Dydd Iau 19/7/2018 yn gofyn ymateb erbyn 4:00 o'r gloch y prynhawn Dydd Gwener, 20fed o Orffennaf 2018 ac fe mynegwyd siom gan yr aelodau na chafwyd digon a amser a cyfle i'r Cyngor wneud unrhyw sylwadau yn yr achos.

9 MATERION CAEAU CHWARAE.

- 9.1** Darllenwyd ac fe nodwyd lythyr wedi ei dderbyn oddiwrth plant blwyddyn 4 & 5 Ysgol Esceifiog yn poeni am cyflwr y pyst goliau pel droed yn Cae Mawr sydd bellach wedi derbyn sylw.

Arwyddo.....

10 MATERION LLWYBRAU.

- 10.1 **Llwybr 33** – nodwyd ebost wedi ei dderbyn oddiwrth y Cyngor Sir yn gofyn fod y gamfeydd ar hyd y llwybr wedi gordyfu ac yn gofyn y byddant yn cael sylw. Roedd y Clerc wedi ymateb iddynt ac wedi pasio'r gwybodaeth ymlaen i Mr O G Jones.
- 10.2 **Llwybr Ty Mawr Llan** – angen sylw a thorri cangen ar y llwybr.

11 MATERION PRIFFYRDD.

- 11.1 **Manhole Covers** – angen sylw at dau neu dri ohonynt wedi ei lleoli ger mynedfa Gaerwen Uchaf a DAU ar hyd Stryd y Capel.
- 11.2 **Gordyfiant ger Safle Anglesey Oil** – angen sylw.
- 11.3 **Lon Graig** – dangoswyd pryder fod cerbydau trwm yn defnyddio'r Lon wrth drafeilio i Chwarel Bwlch Gwyn yn groes i'r amodau ac y gall achosi ddamwain ger cyffordd y pentref ar yr A55. Fe benderfynwyd monitro'r sefyllfa a thrafod yn bellach yn y cyfarfod nesaf.

12. ADRODDIADAU, YMGYNGHORIADAU & GOHEBIAETH.

- 12.1 **Y Ganolfan** – cytunwyd mewn egwyddor fod y Cyngor yn prynu Uned Newid Babi i'r Ganolfan – gost o gwmpas £200 a £250. Gofynnodd y Clerc a'r Cadeirydd fod angen rhybudd o hyn ymlaen er mwyn rhestru fath geisiadau ar y rhaglen yn hytrach na chodi yn ddiarwybod mewn cyfarfod llawn y Cyngor.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 25ain MEDI 2018.

- 13.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am ddod ac fe clowyd y cyfarfod am 7:55yh.